



## POLISI AMSEROEDD SESIYNAU YSGOL

### Cyflwyniad:

Cymeradwywyd Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012 gan y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau a daethant i rym ar y 24<sup>ain</sup> o Chwefror 2012. Mae Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") yn berthnasol i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ac i ysgolion arbennig (byddent yn cael eu cynnal felly ai peidio).

### Nodau ac amcanion:

- Sicrhau bod y strwythur ar gyfer yr amserlen ysgol yn rhoi'r fframwaith gorau posib ar gyfer dysgu ac addysgu.
- Sicrhau cwrdd â Deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a bod amseroedd ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) 2012.

### Sesiynau Ysgol:

- Bydd diwrnod ysgol fel arfer wedi'i rannu'n ddwy sesiwn (ag egwyl yn y canol), a bydd ysgolion (ac eithrio ysgolion meithrin) yn cwrdd am o leiaf 380 o sesiynau yn ystod unrhyw flwyddyn ysgol (h.y. 190 o ddyddiau).
- Mae gofyn i ysgolion fod ar agor i ddysgu disgyblion am hyd at 190 o ddyddiau bob blwyddyn academiaidd. Mae gofyn i athrawon fod ar gael i weithio am 195 o ddyddiau ym mhob blwyddyn academiaidd. Mae hyn yn cynnwys bod ar gael ar gyfer pump i saith niwrnod o hyfforddiant mewn swydd (HMS).
- Mae pum niwrnod satudol o HMS a roddir ar gael o fewn cyflog ac amodau gwasanaeth athrawon. Mae gan Weinidogion Cymru'r awdurdod i roi un neu ddau ddiwrnod HMS ychwanegol.
- Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 5 yn Rheoliadau 2003 i ddarparu ar gyfer bod hyd at bedair sesiwn ym mlwyddyn ysgol 2011-2012 yn cyfrif yn sesiynau y cwrddodd yr ysgol ynddynt os cawsant eu neilltuo ar gyfer gwella safonau dysgu neu arferion rheoli staff yr ysgol gyda golwg ar wella neu asesu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn yr ysgol.
- Bydd defnydd o'r sesiynau hyn wedi'i gyfyngu i dymor yr haf, ac fe gaiff ei leihau yn ôl cyfran os collir unrhyw amser dysgu yn yr ysgol oherwydd tywydd garw yn y ddau dymor blaenorol.

Mae lleiafysymiau gofynnol yr amser dysgu (Canllaw Statudol 7/90) fel a ganlyn:-

CA1 – 21 awr

CA2 – 23 ½ awr

CA3 – 24 awr

CA4 (BI10) – 24 awr

CA4 (BI11) – 25 awr

<b>Cyfnod Sylfaen</b>		<b>Cyfnod Allweddol 2</b>
9.00 yb – 10.30 yb 10.45 yb – 11.45 yb 1.00 yp – 2.15 yp 2.30 yp – 3.30 yp		9.00 yb – 10.30 yb 10.00 yb – 12.00 yp 1.00 yp – 2.15 yp 2.30 yp – 3.30 yp
285 munud y dydd 1425 munud yr wythnos 23 awr 45 munud	Cyfanswm yr oriau a dreulir yn yr ysgol bob wythnos	305 munud y dydd 1525 munud yr wythnos 25 awr 25 munud
5 munud y dydd 25 munud yr wythnos	Cofrestru	5 munud y dydd 25 munud yr wythnos
10 munud y diwrnod 50 munud yr wythnos	Addoliad	15 munud (1 diwrnod) 5 munud (4 diwrnod) 35 munud yr wythnos
22.5 awr	Amser a dreulir i ddysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol	24 awr

### Swyddogaethau a chyfrifoldebau llywodraethwyr

Fe wna'r corff llywodraethu sicrhau, os oes newidiadau i'r diwrnod ysgol yn cael eu hystyried, y bydd y pennaeth yn ymgynghori'n llawn â'r staff, y rhieni, y disgyblion, a'r AALI i sicrhau:

- y caiff datganiad ei baratoi yn manylu ar y newid arfaethedig ac, os mynnir felly gan yr AALI,
- darparu copi o'r datganiad i'r holl rhieni a rhoi copïau ar gael i'w gweld yn yr ysgol
- galw cyfarfod, os gofynnir amdano gan y rhieni, i drafod y newid arfaethedig
- ystyried unrhyw sylwadau a roddir a phenderfynu p'un ai gweithredu'r newid arfaethedig ai peidio, gydag unrhyw ddiwygiad neu hebdo
- hysbysu'r AALI a rhieni o unrhyw newid cyn iddo ddod i rym